## CANLLAW I DRAFOD MATH O DESTUN:

# PERSWÂD

*Trosolwg o nodweddion, iaith a strwythur*

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# PA FATH O DESTUN YW HWN?

**Testun sy’n cynnwys rhesymau a manylion er mwyn dangos pam a sut, sy’n cynnwys yn aml nodi achosion a chanlyniadau a chysylltiadau rhwng digwyddiadau neu syniadau.**

| STRWYTHUR Y TESTUN | GWYBODAETH AM IAITH | CANLLAWIAU YSGRIFENNU |
|---|---|---|
| Bydd testun o'r math hwn i'w weld yn aml yn y ffurfiau canlynol:<br>• Araith<br>• Llythyr<br>• Hysbyseb<br>• Erthygl<br>• E-bost<br>• Poster<br>• Blog | Bydd testun o'r math hwn yn cynnwys:<br>• Defnydd o'r person cyntaf e.e. "Gwelaf i . . ." a "Teimlaf i . . ."<br>• Defnyddio geirfa mynegi barn e.e. "Anghytunaf" a defnyddio adferau cryf "Anghytunaf yn chwyrn"<br>• Ailadrodd geiriau<br>• Testun mewn PRIF LYTHRENNAU<br>• Ebychnodau<br>• Cwestiynau rhethregol | Wrth ysgrifennu testun o'r math hwn gellid:<br>• Rhoi un ochr o ddadl yn unig<br>• Byddwch yn rhoi eich barn<br>• Byddwch yn defnyddio tystiolaeth a rhoi rhesymau<br>• Defnyddio hiwmor<br>• Defnyddio iaith emosiynol<br>• Wrth gyflwyno'r gwaith gellir defnyddio seiniau a delweddau |

GwE
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
Ysgol Tryfan
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# YSGRIFENNU ER MWYN PERSWADIO

Wrth ysgrifennu er mwyn perswadio byddwn ni'n defnyddio nifer o dechnegau ond y nod bob amser yw PERSWADIO! Nid oes rhaid i chi gyflwyno dwy ochr y ddadl dim ond dweud eich barn a chyflwyno eich syniadau. Er enghraifft, wrth berswadio rhywun i ddod ar eu gwyliau i Gymru efallai y byddech chi'n dweud wrthyn nhw mai Cymru yw'r wlad orau yn y byd a bod yr haul bob amser yn tywynnu yma! Does dim gwahaniaeth beth ddewiswch chi ei ysgrifennu, y nod yw eu cael nhw i ddod yma ar eu gwyliau. Wrth ysgrifennu er mwyn perswadio:

**BYDDWCH YN BENDANT** – cofiwch mai chi'n sy'n gwybod! Os ydych chi am berswadio rhywun arall rhaid i chi fod yn sicr mai CHI sy'n gwybod beth sydd orau.

**BYDDWCH YN GADARNHAOL** – cofiwch ei bod hi'n well gan bobl glywed eich syniadau da chi yn hytrach na chlywed barn negyddol am syniadau pobl eraill.

**BYDDWCH YN DDEWR** – cofiwch fod rhaid i'ch syniadau fod yn glir ac er mwyn gwneud hynny rhaid mentro wrth ddefnyddio iaith, er enghraifft:

- Ailadrodd – er mwyn sicrhau bod eich cynulleidfa wedi deall
- Defnyddio cwestiynau – er mwyn gwneud i'r gynulleidfa feddwl
- Disgrifio eich teimladau gan ddefnyddio iaith emosiynol – er mwyn i'r gynulleidfa uniaethu â chi
- Defnyddio gerifa mynegi barn ac adferfau cryf – er mwyn eu perswadio!

GwE
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
Ysgol Tryfan
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government